# PICEDI, PLISMONA A GWLEIDYDDIAETH

## STREIC Y GLOWYR 1984-1985



PECYN ADNODDAU A GRËWYD I ATHRAWON
YSGOLION UWCHRADD MEWN CYSYLLTIAD
Â BIG PIT: AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU

Sponsored by
Welsh Assembly
Government

# STREIC Y GLOWYR 1984-1985



ALLINELL BICED YM MHWLL GLO PENALLTA A

**Cynllun pedair gwers i'w defnyddio gan ysgolion uwchradd, sy'n esbonio cefndir, digwyddiadau a chanlyniadau Streic y Glowyr 1984-5.**

## 1
Cefndir cymdeithasol a gwleidyddol y streic

## 2
Y streic

## 3
Canlyniadau'r streic


## 4
Ymweliad â Big Pit

# 1 Adran 1 Cefndir cymdeithasol a gwleidyddol y streic

## Y DIWYDIANT GLO YM 1984

*“’Does yna’r un ffordd y gallwch chi sicrhau amgylchedd cymdeithasol gydag economeg wael’*

**Ian MacGregor, Cadeirydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB), 1983**




Gwelwyd newidiadau mawr yn y diwydiant glo wedi’r gwladoli ym 1947. Buddsoddodd y llywodraeth swm sylweddol o arian yn y diwydiant a alluogodd iddo gyflwyno offer a thechnegau cloddio newydd. Arhosodd y lefelau cynhyrchu a chyflogaeth yn sefydlog tan ganol y 1950au ond, gyda’r gostyngiad yn y galw am lo a’r her o olew’r Dwyrain Canol, caewyd 50 o byllau glo yn ne Cymru rhwng 1957 a 1964.

Yn ystod y 1970au, gwelodd y diwydiant ddwy streic fawr. Ym 1972, ildiodd y Prif Weinidog Ceidwadol, Edward Heath, i’r glowyr a aeth ar streic am fwy o gyflog. Pan ddechreuodd streic arall ym 1974, galwodd Mr Heath am etholiad cyffredinol yn syth gan obeithio cael cefnogaeth y cyhoedd yn erbyn y glowyr.  Ond pleidleisiodd y cyhoedd yn ei erbyn gan roi buddugoliaeth i’r Blaid Lafur.

Erbyn y 1980au, roedd diwydiant glo Prydain ymhlith y mwyaf diogel ac effeithlon yn y byd. Fodd bynnag, pan ddaeth y llywodraeth Geidwadol newydd i rym dan arweiniad Margaret Thatcher, roedd am wneud y diwydiant yn fwy effeithlon trwy leihau’r hyn yr oedd yn eu hystyried fel diwydiannau amhroffidiol. O dan ei harweiniad trosglwyddwyd nifer o'r diwydiannau a oedd gynt yn cael eu rhedeg gan y wladwriaeth megis nwy, dŵr a'r rheilffyrdd i berchnogaeth y sector breifat, mewn geiriau eraill cawsant eu preifateiddio.  Telecom Prydain

oedd y darparwr gwasanaeth cyntaf i gael ei ddadwladoli ym 1984 gyda sawl un arall yn dilyn dros y blynyddoedd canlynol. Ar yr un pryd, roedd am wanhau grym yr undebau llafur a oedd, yn ei thyb hi, wedi dod yn rhy bwerus. Arweiniodd yr agenda hwn at wrthdaro rhwng y llywodraeth Geidwadol ac Undeb Cenedlaethol y Glowyr (NUM). Trodd y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn Glo Prydain ym 1987 yn barod i'w breifateiddio, a digwyddodd hynny ym 1994.


## Y CYMUNEDAU GLOFAOL

Cymunedau un diwydiant oedd y pentrefi glofaol yng Nghymru i bob pwrpas, tan ymhell ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ffynnodd y diwydiant glo yn rhan olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan greu cymunedau a oedd yn dibynnu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y diwydiant. Gwnaeth hyn ennyn agweddau ynysig, ond golygai hefyd fod buddiannau'r pwll glo a'r gymuned yn cyd-fynd â'i gilydd.

Yn ogystal â gofalu am ei aelodau, roedd Ffederasiwn Glowyr De Cymru (a newidiodd ei enw i Undeb Cenedlaethol y Glowyr Ardal De Cymru, ond a barhaodd i gael ei alw'n 'Y Ffed' yn gyffredinol) yn helpu i ddatblygu sefydliadau cymdeithasol a diwylliannol fel y sefydliadau gweithwyr, llyfrgelloedd a chymdeithasau llesiant a oedd yn fuddiol i'r gymuned gyfan. Roedd dylanwad y diwydiant glo yng Nghymru'n lleihau erbyn hyn, ond roedd yna naws gymunedol gref yn parhau yn y meysydd glo.

Roedd yna 235,000 o ddynion yn gweithio mewn 223 o byllau glo ledled Prydain ym 1979. Erbyn 1983, roedd y ffigwr hwnnw wedi gostwng i 182,000 yn gweithio mewn 175 o byllau glo. Roedd dirwasgiad y 1970au hwyr a'r 1980au cynnar wedi niweidio diwydiannau eraill yng Nghymru hefyd.  Felly, roedd dros 13% o bobl yn ddi-waith yn ne Cymru'n barod, a oedd yn llawer uwch na'r cyfartaledd trwy'r DU.

O ganlyniad i hyn, teimlai nifer o lowyr a'u teuluoedd nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ond brwydro dros yr hawl i weithio a dyfodol eu cymunedau.



## CHWE DADL O BLAID CAU'R PYLLAU GLO

1. Roedd olew, nwy naturiol ac ynni niwclear yn rhatach i'w defnyddio i gynhyrchu trydan na glo.
2. Nid oedd y diwydiant glo wedi gwneud elw ers dros 40 mlynedd.
3. Roedd yn rhatach mewnforio glo o dramor na'i gloddio yma ym Mhrydain.
4. Nid oedd yn gwneud synnwyr economaidd i bobl Brydain ariannu diwydiant a oedd yn colli arian.
5. Trwy gau pyllau glo aneffeithlon gellid diogelu dyfodol gweddill y pyllau glo.
6. Ni ddylai bobl ddibynnu ar y llywodraeth i ddiogelu eu swyddi na'u bywoliaeth.

## CHWE DADL YN ERBYN CAU'R PYLLAU GLO

1. Bydd cau pyllau glo yn gwneud nifer aruthrol o bobl yn ddi-waith.
2. Fel arfer, nid oes unrhyw fath arall o ddiwydiant mewn ardaloedd glofaol – felly ychydig iawn o obaith sydd gan lowyr a'u teuluoedd i ganfod gwaith newydd.
3. Mae yna ddigonedd o lo yn dal i fod dan ddaear; dylid gweithio'r pyllau glo waeth beth yw'r gost.
4. Mae pwll glo'n ganolbwynt i'r gymuned; os byddwch chi'n cau'r pwll glo byddwch chi'n lladd y gymuned.
5. Ffordd i'r llywodraeth Geidwadol ddial ar y glowyr am orchfygu'r llywodraeth Geidwadol ym 1974 yw'r rhaglen i gau'r pyllau glo.
6. Dylai'r llywodraeth ddiogelu a sicrhau dyfodol hirdymor adnoddau naturiol pwysig y wlad.

## DYFYNIADAU AM GAU'R PYLLAU GLO

*'Nod Mr. MacGregor, a nod y Llywodraeth, yw cynhyrchu diwydiant glo da a phroffidiol.'*

**Margaret Thatcher, Prif Weinidog**

*'Ni fyddai cymunedau glofaol yn goroesi ... Bydd yna gynnydd mewn salwch corff a meddwl, hunanladdiad, mwy o drais domestig a theuluoedd yn chwalu. Byddai cymoedd de Cymru'n ddim mwy na chymuned a oedd yn heneiddio ac yn marw, yn dda i ddim ond twristiaeth ac amgueddfeydd diwydiannol.'*

**Arthur Scargill, Llywydd yr NUM**

*'Perfformiwch ac mae gennych ddyfodol, peidiwch, a 'does gennych chi'r un dyfodol, mae mor syml â hynny.'*

**Ian MacGregor, Cadeirydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol**

*'Mae glowyr De Cymru'n dweud – d'yn ni ddim am dderbyn dirywiad ein cymoedd glo, d'yn ni ddim am ganiatáu i'n plant fynd yn syth o'r ysgol i'r ciw dôl – mae'n bryd i ni ymladd!'*

**Emlyn Williams, Llywydd, NUM Ardal De Cymru**



MARGARET THATCHER




ARTHUR SCARGILL

## PLISMONA A PHICEDI

*‘Ymgais yw hwn i ddisodli rheolau’r gyfraith â rheolau’r dorf, ac ni ellir caniatáu iddo lwyddo.’*

**Margaret Thatcher**

*‘Enghraifft arall o’r Wladwriaeth Heddlu ym 1984!’*

**Arthur Scargill**

Nid oedd y streic yn ornest syml rhwng y llywodraeth a’r NUM. Weithiau, byddai cymunedau cyfan yn cael eu rhannu rhwng glowyr a oedd eisiau gweithio a’r rhai a oedd ar streic. Roedd y penderfyniad i beidio â chynnal pleidlais ynghylch y streic yn rhoi rheswm i rai glowyr barhau i fynd i’r gwaith. Er mwyn atal hyn rhag digwydd, byddai ‘picedwyr gwib’ yr NUM yn teithio i byllau glo eraill lle nad oeddent yn gweithio fel arfer er mwyn perswadio’u cydweithwyr a oedd am weithio i beidio â chroesi eu llinell biced.

Byddai’r heddlu ar ddyletswydd i wneud yn siŵr bod y glowyr a oedd yn gweithio’n gallu cyrraedd eu gwaith. Mae streic y glowyr wedi cael ei hystyried yn aml fel rhyfel rhwng yr heddlu a’r picedwyr, er bod y rhan fwyaf o’r picedu wedi bod yn drefnus ac yn heddychlon. Wedi dweud hynny, fe allai’r gwthio a’r hyrddio defodol rhwng yr heddlu a’r picedwyr edrych yn ffyrnig tu hwnt ar y newyddion gyda’r nos.



Mike Thompson

*‘Roedd y berthynas rhwng yr heddlu a’r picedwyr yn eithaf cyfeillgar i ddweud y gwir, dim ond ychydig o wthio a hyrddio.’*

**Dave Savage, Uned Cefnogi’r Heddlu**

*‘Roedd picedu yn Aberddawan yn eithaf tawel ar y cyfan, byddai rhai gyrwyr lori’n stopio i wrando ar ein dadleuon, ond byddai’r mwyafrif ohonyn nhw’n gyrru heibio.’*

**George Winorgorski, Pwll Glo’r Cwm**

*‘Gallai fod braidd yn ddiflas ar adegau … roedd yna ddigon o bicedu gerllaw, ond nid oedd unrhyw drwbl o werth heblaw am rywfaint o weiddi.’*

**Tony Popple, Police Support Unit**





Er hynny, roedd yna wrthdaro mwy ffyrnig o lawer yn digwydd ar adegau rhwng yr heddlu a’r glowyr ar streic.

## ORGREAVE

Gwelwyd yr enghraifft waethaf o hyn yn Ffatri Glo Golosg Orgreave yn Swydd Efrog ym mis Mehefin 1984 pan ddaeth glowyr ar streic o bob cwr o’r wlad i geisio rhwystro’r cyflenwad glo rhag cyrraedd y ffatri. Tybir bod hyd at 6,000 o bicedwyr yn bresennol yno yn wynebu hyd at 8,000 o blismyn, gan gynnwys 40-50 o blismyn ar geffylau a 60 o gŵn heddlu. Fel rheol, byddai picedwyr yn cael eu hatal rhag teithio i linellau picedu eraill, ond y tro hwn, arweiniwyd nhw i gae i’r gogledd o’r ffatri glo

golosg. Yn ystod y gwrthdaro a ddilynodd, taflwyd cerrig gan y picedwyr a bu ymosodiadau gan yr heddlu, ar geffylau ac ar droed, gan ddefnyddio pastynau. Arestiwyd naw deg tri o bicedwyr.




## DWY FARN AR Y TRAIS A WELWYD YN ORGREAVE YM MIS MEHEFIN 1984

*‘Gallech chi weld yr holl sgwadiau cipio hyn yn mynd yn wyllt gyda’u pastynau ar gopa’r bryn. Roedden nhw’n bwrw dynion diamddiffyn. Roedden nhw’n ymddwyn yn wyllt a dros ben llestri. Roedden nhw’n mynd i chwalu’r streic yn y fan a’r lle, sut bynnag y gallen nhw!’*

**Meirion John, Pwll Glo De Celynnen**

*‘Dechreuodd y picedwyr daflu cerrig, brics, pren wedi’i rwygo o ffensys, ac roedd ein plismyn yn cael eu hanafu. Dyna pryd y penderfynais orchymyn i’r plismyn fynd i mewn i’r dorf gyda tharianau er mwyn atal peth o’r fath rhag digwydd’*

**Tony Clement, Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu De Swydd Efrog**




Er i Gymru osgoi’r rhan helaeth o’r trais a welwyd ar feysydd glo eraill, cafodd glowyr o Gymru eu lladd tra’r oeddent ar y llinell biced a chafodd gyrrwr tacsi ei ladd wrth iddo fynd â thorrwr streic i’w waith ym Mhwll Glo Merthyr Vale.

# GRWPIAU CEFNOGAETH MENYWOD

*'Roedd menywod yn cefnogi'r streic am ei bod yn ymwneud â swyddi a chymunedau ond, yn y pen draw, yr unig beth roeddwn i am ei wneud oedd bwydo'r plant.'*

**Glynys Evans, Blaenllechau**




Wrth i'r streic barhau, dechreuodd y glowyr a'u teuluoedd wynebu caledi go iawn am nad oedd y dynion, a oedd yn cael gwell tâl na'r rhan fwyaf o weithwyr llaw y wlad, wedi derbyn cyflog ers dechrau'r gwrthdaro. Y caledi hwn, ynghyd â'r pryder y byddai polisi'r llywodraeth Geidwadol yn dinistrio eu cymunedau, a orfododd nifer o fenywod i weithredu. Roedd yn draddodiad ledled meysydd glo de Cymru i fenywod gefnogi eu dynion yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol, ond y tro hwn, aeth y menywod gam ymhellach.






Aethant ati o godi arian, sefydlu canolfannau bwyd, darparu dillad a rhedeg ceginau cawl. Byddent yn siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus a ralïau, yn trefnu ffeiriau sborion ac yn llunio taflenni a

phamffledi a oedd yn cefnogi'r streic. Byddai nifer o fenywod yn sefyll ochr yn ochr â'u dynion ar y llinellau piced ac, ym Mhwll Glo Cynheidre, fe wnaethant hyd yn oed feddiannu'r baddonau pen pwll.

*'Roedd menywod yn casglu ar gyfer parseli bwyd, yn mynd i ralïau ac yn picedu. Ffurfiwyd 'Women against Pit Closures', a hwn oedd un o'r grwpiau menywod mwyaf a welwyd erioed.'*


**Ann Jones, Hirwaun**

Teimlai rhai dynion o fewn y cymunedau glofaol dan fygythiad gan y menywod penderfynol hyn. Gwrthododd rhai cyfrinfeydd NUM ganiatáu i fenywod fod ar y llinell biced ar y cychwyn.

*'Roedd rhaid i ni ymladd ein ffordd i'r llinellau piced ar y cychwyn – ac nid yr heddlu'n unig oedd yn ein herbyn! Ond pan welodd y dynion ni yno dechreuon nhw ein derbyn.'*

**Ann Jones, Hirwaun**









Rhoddodd y streic fwy o hunanhyder i lawer o fenywod; aeth rhai ymlaen i ddechrau busnes eu hunain neu astudio yn y brifysgol. Yng Nghwm Dulais, sefydlwyd y gweithdy ‘DOVE’ gan aelodau o’r grŵp cefnogaeth menywod lleol i ddarparu addysg a hyfforddiant cymunedol.

# Y CYFRYNGAU

*'Roedden ni'n dilyn cod ymddygiad a oedd i'w weld yn gwbl ddiystyr i'r cyhoeddiadau hynny a oedd yn erbyn yr undebau llafur. Gwnaed sawl ymgais gan nifer o bapurau newydd fel y Sun, y Daily Mail a'r Daily Express, i ddilorni pryderon y glowyr ynghylch dyfodol eu diwydiant a'u cymunedau.'*


**Tony Heath, y *Guardian***

*'Roedden ni mewn torf fawr ac roedd hi'n eithaf swnllyd yno, felly cododd ei law (Arthur Scargill) i'w distewi a dywedodd y Sun ei fod wedi rhoi saliwt Natsïaidd.'*


**Tony Benn, AS**


*'Gan mai bachgen lleol oeddwn i roedd gen i ddealltwriaeth o'r diwydiant glo na fyddai gan ohebydd o'r Sun o bosibl. Mae newyddiadurwyr papurau poblogaidd Llundain fel herwfilwyr. Maen nhw'n dod mewn i ardal, yn cael eu stori ac yna'n gadael.'*


**Wayne Novaczyck, *South Wales Echo***




Roedd rôl y cyfryngau yn ystod y streic yn ddadleuol tu hwnt. Roedd y mwyafrif o'r papurau newydd tabloid poblogaidd yn agored yn eu cefnogaeth i'r llywodraeth. Roedden nhw'n dueddol o bortreadu glowyr ar streic fel pobl dreisgar a bygythiol, tra'n portreadu'r heddlu a'r glowyr a barhaodd i weithio fel arwyr. Er mwyn gwneud pethau'n fwy cytbwys, cynhyrchodd yr NUM a sefydliadau asgell chwith eraill lenyddiaeth eu hunain ar ffurf papurau newydd, pamffledi a phosteri.


COAL, THE NATION'S ENERGY FUTURE
SAVE IT WITH THE NUM
COAL NOT DOLE


NATIONAL UNION OF MINEWORKERS (South Wales Area)
MacGregor's Democracy
NO-ONE ELECTED HIM. Appointed by Thatcher, he and his New York banking firm are being paid £3 million to destroy this country's energy industries.
Thatcher has already sold the British National Oil Corporation to MacGregor's friends in the City.
North Sea Gas is about to suffer the same fate. Power Station workers are being laid-off despite the fact that the Government has ordered the Electricity Board to import electricity from French nuclear stations via cross-channel cables.
Britain's coal is the next target. We have hundreds of years of reserves. Yet Thatcher would rather throw this country to the wolves who control the world energy markets.
In the next 12 months, she and MacGregor want to close 20 pits and shed 20,000 jobs. MacGregor told the NUM that over the next 3 years he wants to reduce the number of pits from 174 to 100 and the number of jobs from 180,000 to 100,000.
A further 160,000 jobs will disappear over the same period in industries supplying pits and carrying coal. This will hit engineering, rail and road transport, gas and electricity, not only in mining areas but throughout Britain.
These industries produce the wealth which pays for our public services. Without it, the health and education of our children and the welfare of our sick and aged will be placed in dire peril.
SAVE YOUR COMMUNITIES
SUPPORT THE MINERS


CAU PWLL
NUM DE CYMRU


NUM FOOD FUND
BACK THE MINERS
PREVENT STREET CRIME

# DWY FARN O'R CYFRYNGAU AR Y GWRTHDARO YN FFATRI GLO GOLOSG ORGREAVE

## Y Llinell Las yn Dal ei Thir

*'Cawsant eu peledu gan gerrig a brics (yr heddlu), pêl-ferynnau a hoelion a hyd yn oed estyllod ffensys. …meddai'r Uwcharolygydd Tony Pratt, sydd wedi bod yng ngofal yr ymgyrch yn Orgreave ers y pedwar diwrnod diwethaf, gan ychwanegu 'Pan maen nhw'n dechrau estyn cyllyll (y glowyr), pêl-ferynnau, hoelion …  ac yn eu taflu at geffylau a dynion, yna mae hyn yn lefel annerbyniol o drais i blismyn yr ardal hon ... a bydd rhaid i ni ymateb yn gadarnhaol'*

**Daily Mail, 30 Mai 1984.**

## Ewch i mewn a'u bwrw'n galed

*Mae'r llywodraeth wedi datgan rhyfel dosbarth. Mae am orfodi'r dosbarth gweithiol i ildio yn yr ardal hon... Nhw ddylid eu beio am y drosedd. Eu neges i'r heddlu oedd 'Ewch i mewn a'u bwrw'n galed'. Roedd y defnydd a wnaethant o gŵn a cheffylau'n frawychus.*

**Labour Weekly, 22 Mehefin 1984**

1 Sut y mae'r heddlu a'r glowyr yn cael eu portreadu gan y ddau gyhoeddiad gwahanol hyn?

2 Pwy ydych chi'n meddwl sy'n dweud y gwir?




**GRAFFITI ON PUBLIC TOILETS AT ABERCARN**

## 'GLOWYR GWEITHIOL'

Galwyd y rheiny a groesodd y llinell biced a mynd yn ôl i weithio yn 'fradwyr' neu 'blaclegs' gan y streicwyr ac yn 'ddychwelwyr' neu'n 'lowyr gweithiol' gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol a'r cyfryngau asgell dde. Oherwydd lefel y casineb a ddangoswyd tuag at y rheiny a dorrodd y streic, bu raid i nifer adael eu cartrefi a symud i wahanol ran o'r wlad.


Fodd bynnag, wrth i'r streic fynd yn ei blaen, dechreuodd mwy o raniadau ymddangos o fewn rhengoedd y glowyr.

*Ni all y chwerwedd rhwng y dynion a ddychwelodd i'r gwaith a gweddill y gweithlu fyth gael ei gymodi – rhwygwyd priodasau ac anghofiwyd ffrindiau.*

**Phil Cullen, Pwll Glo Cynheidre**

*'Hoffai fy ngwraig a minnau ddiolch i Gyfrinfa De Celynnen unwaith eto am helpu'r ba***rd comiwnyddol yna, A. Scargill, i'n tywys i dlodi. D'yn ni ddim yn hoffi M. Thatcher nac Ian Macgregor, ac mae gennym ni atgasedd pur tuag at A. Scargill a Mick McGahey, a 'dyw'r ba***rd comiwnyddol arall yna, E. Williams ddim yn werth sôn amdano. 'Dyw T. Thomas a Dr K Howells yn ddim mwy na dwy sach llawn gwynt, yn llawn hunanbwysigrwydd. Os na allwch chi weld bod y streic 'ma'n cael ei rhedeg gan gomiwnyddion a bod glowyr Gwent yn cael eu harwain at anobaith, rhaid mai twpsod pwdr y'ch chi i gyd. Dylai E. Williams cael ei ddiswyddo'n syth heb unrhyw iawndal.'*

**Llythyr dienw a anfonwyd i Gyfrinfa De Celynnen ym 1984**



Rhymney Valley Report

The Voice of the Rhymney Valley Miners Support Group.

"Working for and with the Miners"

No.10, August 16th, 1984.

WHAT IS A SCAB?

The so-called "drift back to work", exaggerated by the Mass Media, recently, is nothing but an increase in scabbing by a handful of miners.

But why do we never hear the TV. or Press using the word scab? What is meant by the term?

The definition given by the dictionary starts with the medical term, describing an unpleasant crust of dead tissue. This is why it is also a good description of a worker who goes back to work while others are on strike: such a person is a scab on the face of the community.

As far as the miners of S.Wales are concerned, there is nothing so low as a man who will stab his fellow workers in the back by strike-breaking. But, as far as the Mass Media and the police are concerned, there is no such thing as a scab. The media ignore the word and the police ban its use on the picket-line, threatening arrest to whoever says it!

The difference is clear. The powers-that-be justify themselves by claiming the right to work is more important. But what do they really mean?

The Tory government, their protectors and propagandists, believe in the right to break strikes! The right to work that they claim is the right to work in the short term, but WHAT ABOUT THE RIGHT OF MINERS TO WORK IN THE LONG TERM? THIS STRIKE IS TO SAVE THE COAL MINING INDUSTRY, AND TO SAVE THE RIGHT TO WORK FOR THE YEARS TO COME!

The Tories are hypocrites to claim to be protectors of freedom while they preside over wide-scale restrictions of our freedom - by

* curtailing freedom of movement, through arbitrary, and probably unlawful, road-blocks,

* denying freedom of expression, banning the use of the word scab.

But, in the end, it is the scab who endangers our liberty most - by attacking the most basic right any worker has, the right to strike.

It is vital for all Trade Unionists to support the miners, but it should also be the concern of every man, woman and child in our community to understand the threat to our liberty posed by the Tory Government. As Pastor Niemoeller pointed out in Nazi Germany, the failure to act to defend our rights will be seen as a sign of weakness.

To modify his words for today,

"They came for the Miners, but I wasn't a Miner, so I did nothing.

Then they came for the Trade Unionists, but I wasn't a Trade Unionist, so I did nothing.

Then they came for me, and there was no-one left to help me."

★ PRIZE DRAW ★

1st PRIZE - PORTABLE TELEVISION

2nd PRIZE - MINERS LAMP

3rd PRIZE - FOOD HAMPER

The Draw takes place on Saturday 22nd September 1984.

TICKETS 10p EACH

FROM OUR TREASURER - FRANK CUTHBERT,

12 Salop Street, Caerphilly. Saturday 22nd September 1984

Promoter: F. Cuthbert, 12 Salop Street, Caerphilly.

Registered at the Rhymney Valley District Council under the Lotteries & Amusements Act 1976

Printed by Norman Moss Printers, 11 Groveland Road, Birchgrove, Cardiff

Mewn sawl rhan o Dde Cymru, pe bai gweithiwr yn croesi'r llinell biced byddai'n alltud yn ei gymuned. Fodd bynnag, ym mis Awst, croesodd Monty Morgan y llinell biced, ac ef oedd y dyn cyntaf erioed i wneud hynny yn Ne Cymru. Newidiodd ei feddwl mewn byr o dro yn sgil y trais a ddilynodd rhwng y picedwyr a'r heddlu. Yn ddiweddarach, dilynodd glowyr eraill o Gymru ei esiampl, yn enwedig wrth i'r gaeaf fynd yn ei flaen, ond serch hynny, dim ond 6% o aelodau NUM Ardal De Cymru a oedd wedi torri'r streic erbyn Mawrth 1985.

Er bod y mwyafrif llethol o bobl yn cefnogi'r streic yn ne Cymru, nid oedd yr ardal yn rhydd rhag trais. Ym mis Tachwedd, cafodd gyrrwr tacsi ei ladd pan ollyngwyd bloc concrit ar ei gar wrth iddo yrru glöwr i weithio i Bwll Glo Merthyr Vale.

# RHEOLWYR Y PYLLAU GLO

Nid oedd pob glöwr yn aelod o'r NUM. Roedd rheolwr y pwll glo'n aelod o Gymdeithas Rheolwyr Pyllau Glo Prydain (BACM) a'i waith ef oedd cadw'r pwll glo ar agor, waeth beth oedd y materion gwleidyddol neu ei deimladau personol. Roedd rhaid iddo ddelio ag unrhyw aelod o'r NUM oedd eisiau dychwelyd i'r gwaith hefyd.

*'Fel rheolwyr pwll glo, cynghorwyd ni i beidio â gwrthod unrhyw löwr a fyddai'n dod i'r pwll glo a gofyn am gael dychwelyd i'r gwaith.'*

**Desmond Caddy, *rheolwr pwll glo***



Er hynny, gallai rheolwyr y pyllau glo fod â barn annibynnol iawn, hyd yn oed os oedd y rhan fwyaf ohonynt yn dod o'r un cymunedau â'r glowyr oedd yn gweithio iddynt.


*'Yn bersonol, roeddwn i'n meddwl bod tactegau Arthur Scargill yn gwbl anghywir o'r dechrau un. Nid oedd ganddo gefnogaeth ei weithlu ei hun i alw am streic; ni roddodd gyfle iddyn nhw bleidleisio. Pe bai pob un o'r 26 pwll glo wedi pleidleisio dros ddod allan, fydden i dal ddim wedi cytuno â'r penderfyniad, ond o leiaf bydden nhw wedi bod yn unedig. Roedd y ffordd yr aethon nhw ati'n anhygoel.'*

**Desmond Caddy, *rheolwr pwll glo***

Roedd is-reolwyr pyllau glo'n aelodau o NACODS (*Cymdeithas Genedlaethol Goruchwylwyr, Dirprwyon a Thanwyr Pyllau Glo*). Roedd gan y rhain (a rhai aelodau eraill o'r NUM) yr hawl i wneud gwaith diogelu yn ystod y streic.).

*'Roedd hawl gennym ni i wneud gwaith diogelu yn ystod y streic, sef gofalu bod y pympiau'n gweithio yn bennaf fel na fyddai'r pwll glo'n llenwi â dŵr. Ches i ddim trafferth i fynd trwy'r llinellau piced – roedd bois yr NUM yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn ei derbyn'*

**John Scandrett, Pwll Glo Blaenserchan**



**JOHN SCANDRETT**

## YR ORYMDAITH YN ÔL I'R GWAITH

Ar 1 Mawrth 1985, dychwelodd bron i 20,000 o lowyr De Cymru i'r gwaith. Roedd anobaith, tlodi a rhwystredigaeth yn cynyddu'r pwysau a oedd arnynt i ddychwelyd. Ar fore'r 5 Mawrth, gorymdeithiodd y glowyr yn ôl gan ddilyn eu baneri a'u bandiau. Ym Maerdy, gwnaeth y dynion sioe, wrth gyrraedd y pwll glo, o gymeradwyo'r menywod a oedd wedi dangos cefnogaeth mor ddi-sigl.

Roedd cyfnod y streic yn un o frwydro a dioddefaint. Nodwyd eu dychweliad i'r gwaith gan areithiau ysbrydoledig am undod, gwroldeb a'r angen i frwydro ymlaen. Roedd y glowyr yn benderfynol o ddangos i lywodraeth Mrs Thatcher nad oeddent wedi cael eu trechu – roeddent am iddi glywed eu neges eu bod wedi colli'r frwydr o bosibl, ond nad oeddent wedi colli'r rhyfel!



Mabwysiadodd pobl safbwyntiau gwahanol am agweddau'r glowyr wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

*'Wn i ddim beth oedd hyn i fod i brofi i bawb, heblaw dangos bod y dynion ffyddlon hyn druan, a gafodd eu harwain ar gyfeiliorn am flwyddyn gyfan gan Arthur Scargill, yn parhau i fod yn gaeth i'w syniadau. Roedd yn druenus.'*

**Ian MacGregor, Cadeirydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol**

*'Dychwelodd y dynion i'r gwaith gyda'i gilydd, gyda'r bandiau'n chwarae, y baneri'n chwifio a gyda llawer o urddas.'*

**Philip Weekes, Cyfarwyddwr y Bwrdd Glo Cenedlaethol, Ardal De Cymru**


South Wales Echo
GWENT
One year after — banners, bands and women in nighties
IT'S 'MARDY GRAS'— AS MINERS GO MARCHING IN
LOANS £500 - £15,000
Unity hopes hit by clashes
4.9% finance on all new Volkswagen Polo models until 18th March, 1985
WHAT THIS MEANS TO YOU:
Home deny claims by MP
Soccer thugs riot as Chelsea lose
Call us today and get a great deal, for a great deal less
CARDIFF
Polo

## CAU PYLLAU GLO

Cyn gynted ag y dychwelodd y glowyr i'r gwaith, parhaodd y Bwrdd Glo Cenedlaethol â'i gynllun i gau pyllau glo aneconomaidd.

*'Gan ein bod wedi llwyddo o'r diwedd, roedden ni'n mynd i reoli'r fenter. Os oedden nhw'n meddwl eu bod yn gorymdeithio'n ôl ac ailgychwyn fel pe bai dim wedi newid, yna roeddent yn mynd i gael sioc a hanner'*

**Ian MacGregor, Cadeirydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol**

Roedd yr NUM wedi brwydro am ddeuddeg mis ac wedi cael ei drechu. Bellach, gallai'r Bwrdd Glo Cenedlaethol gau pyllau glo heb fawr o ymyrraeth. Roedd y rhan fwyaf o'r glowyr mewn dyled ofnadwy o ganlyniad i'r streic ac yn gweld y pecynnau diswyddiad fel ateb i'w problemau. Sylweddolai eraill nad oedd unrhyw ddyfodol i'r diwydiant glo a derbyn fod yn rhaid i'w pwll glo gau.

Ym 1984, roedd mwy nag 20,000 o lowyr yng Nghymru. Erbyn diwedd y degawd roedd yna 3,700. Caewyd Glofa'r Tŵr, y pwll glo dwfn olaf yng Nghymru, yn 2008 a bellach, dim ond rhai cannoedd o ddynion sy'n gweithio mewn 'cloddfeydd drifft'.



# CYMUNEDAU AR ÔL Y STREIC




Achosodd y streic rwygiadau mawr o fewn nifer o gymunedau. Wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith, gwrthododd nifer o ddynion weithio gyda'r rheiny a alwyd yn 'fradwyr' yn ystod y gwrthdaro. Ychydig iawn o faddeuant a gynigwyd i'r cyn-gydweithwyr hyn.

*'Mae Mr Scargill wedi dweud, ar ran y Pwyllgor Cydlynu Cenedlaethol, y byddan nhw'n cael eu cynnwys a'u croesawu os byddan nhw'n dychwelyd i'r gweithle. Nid fel hyn y mae Ardal De Cymru'n gweithredu – fyddwn ni byth yn maddau iddynt.  Bradwyr ydyn nhw yn ein llygaid ni…. Byddan nhw'n cael eu trin fel bradwyr pan ddaw'r streic i ben.'*

**Emlyn Williams, Llywydd NUM de Cymru**

*'Mae dwyster y casineb sy'n cael ei ddangos tuag ataf i yn bersonol yn gwneud i mi boeni am fy mywyd. Er bod fy nghydweithwyr a minnau'n disgwyl y byddai ychydig o ddrwgdeimlad, mae lefel yr elyniaeth, sydd bellach wedi cynyddu i'r lefel lle gallent LADD, yn cadarnhau eu bod allan am waed ... byddai parhau i weithio dan amgylchiadau o'r fath yn hunanddinistriol.'*


**Llythyr gan dorrwr streic i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol ar ôl i'r streic orffen**

Yn ffodus, ni welodd y rhan helaeth o gymunedau Cymru mo'r rhwygiadau a gafwyd mewn meysydd glo eraill ym Mhrydain. Ychydig iawn o lowyr Cymru (tua 6%) a dorrodd y streic a symudwyd nifer o'r rheiny a wnaeth i feysydd glo fel Nottingham yn gyflym, lle'r oedd yr alwad i streicio wedi cael ei hanwybyddu i raddau helaeth.

# DIRYWIAD ECONOMAIDD

Un o ganlyniadau cau'r pyllau glo oedd dirywiad economaidd hirdymor. Daeth diweithdra'n beth cyffredin yn y cymunedau glo, ac roedd cyflwr gwael nifer o ardaloedd yn adlewyrchu hynny. Bu raid i siopau a busnesau a oedd yn dibynnu ar y glowyr gau. Yn aml, roedd cymunedau glofaol wedi cael eu datblygu mewn ardaloedd lle'r oedd diffyg cysylltiadau trafnidiaeth. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl gymryd swyddi y tu allan i'w hardaloedd lleol.

Wedi i'r diwydiant glo ddirwyn i ben, bu'n rhaid i nifer o gyn-lowyr de Cymru naill ai adael eu pentrefi er mwyn chwilio am waith neu dderbyn gwaith rhan-amser, di-grefft gyda chyflog isel neu hyd yn oed ceisio byw ar arian y 'dôl'. Hyd yn oed heddiw, rydym yn parhau i weld lefelau uchel o ddiweithdra, gyda rhai cymunedau'n magu'r drydedd genhedlaeth o bobl ddi-waith. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu targedu gan arian o'r Llywodraeth a chronfeydd Ewropeaidd. Yn nod yw adfywio'r ardaloedd hyn a gwrthdroi'r dirywiad economaidd.



**Boarded up and closing down: A Valley town on the ropes**

The boarded windows of shops in Maesteg's Commercial Street (above and below) symbolise the decay that has [illegible] this once flourishing town. The community has suffered from the decline of the mining industry and has recently lost its development area status. MARIO BASINI reports on attempts to reverse the decline.

- **Masonry falls from its empty buildings**
- **Its last pit is threatened with closure**
- **900 miners remain where 10,000 once worked**
- **Lotteries try to save its dwindling trade**

AT LUNCHTIME on a Tuesday in January, Maesteg's main shopping area is as deserted as the streets of a Wild West town waiting with bated breath for a shoot-out between the sheriff and the bad guys.

The cafes and public houses cater for a handful of customers between them. Boarded up shop fronts and for sale notices line Commercial Street with the frequency of parking meters in more affluent London.


An air of decay envelops the town, as tangible as the masonry which occasionally comes crashing down off some of the empty buildings in the street.

"Maesteg is more depressed now than I have

*Source: The Western Mail, 14 February, 1985.*




PLEASE BUY
AN EXTRA ITEM
TO DONATE TO THE
MINERS' HARDSHIP
FUND
WE'LL DELIVER TO THE
CHAPEL FOR YOU
MANY THANKS!
Mr.CHANG'S
READY MEALS
12x2 shepherds pies
COUNTRY LIFE


NATIONAL UNION OF MINEWORKERS
COAL
NOT
DOLE


CROESERW
MINER'S WIVES
SUPPORT GROUP
SOUTH WALES
DOWN
MR
COAL





# 4 Adran 4 Ymweliad â Phwll Mawr

## YMWELIAD Â PHWLL MAWR

Caeodd Pwll Mawr ei ddrysau fel pwll glo gweithredol ym 1980 ac roedd eisoes yn amgueddfa yn ystod y streic. Fodd bynnag, mae gan y safle lawer o botensial i astudio'r pwnc ymhellach trwy arddangosiadau rhyngweithiol ac arddangosfeydd, ffilmiau, a'r aelodau staff profiadol, gan fod gan y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth uniongyrchol am y streic.

**Siaradwch â staff glofaol Pwll Mawr i ganfod beth oedd eu rolau yn ystod y streic.**

Gallech ddefnyddio'r templed canlynol i gasglu gwybodaeth gan staff Big Pit, eich teulu'ch hun neu'ch cymuned leol a fu ynghlwm wrth y streic.





**Defnyddiwch y templed hwn i gasglu gwybodaeth am gysylltiad pobl â streic y glowyr 1984-5, eu teimladau ar y pryd a'r effaith hir dymor ar eu cymunedau. Gallwch ychwanegu eich cwestiynau eich hun ar y diwedd.**

Enw

Ble oeddech chi'n gweithio adeg streic y glowyr 1984-5? Beth oedd eich swydd?

Oeddech chi'n cytuno gyda phenderfyniad yr NUM i streicio? Pam?

Aethoch chi ar y llinellau piced? Os felly sut roeddech chi'n teimlo am hynny?

Sut effeithiodd y streic ar eich teulu - ar y pryd neu wedyn?

Sut oeddech chi'n teimlo am y penderfyniad i ddychwelyd i'r gwaith?

Beth ddigwyddodd i'ch pwll glo chi ar ôl y streic?

Ble aeth pobl eich ardal chi i gael gwaith ar ôl cau'r pwll glo?

Pa effaith gafodd cau'r pyllau glo ar eich cymuned?

**BACM**
Sefydliad Rheoli Glofeydd Prydain

**Bradwyr**
Gweler torwyr streic.

**Cloddfa ddrifft**
Pwll y mae'r glowyr yn mynd i mewn iddo trwy dwnnel yn hytrach na siafft fertigol.

**Dychwelwyr**
Gweler torwyr streic.

**Glofa**
Pwll glo.

**Glowyr gweithiol**
Gweler torwyr streic.

**Grwpiau Cefnogaeth Menywod**
Grwpiau o fenywod a sefydlwyd i gefnogi streicwyr mewn nifer o ffyrdd.

**Llinell biced**
Torf o ddynion wedi'u lleoli tu allan i weithle er mwyn perswadio gweithwyr eraill i gefnogi eu hachos.

**NACODS**
National Association of Colliery Overmen, Deputies and Shotfirers

**NCB**
Bwrdd Glo Cenedlaethol.

**NUM**
Undeb Cenedlaethol y Glowyr.

**Picedwyr gwib**
Streicwyr a yrrwyd i bicedu gweithleoedd eraill ar wahân i'w gwaith eu hunain.

**Sgwad cipio**
Tacteg rheoli terfysg gan yr heddlu lle bydd nifer o blismyn, fel rheol mewn dillad amddiffynnol, yn rhuthro ymlaen i gipio un neu fwy o unigolion o'r dyrfa.

**'Stute (Miners' Institute)**
Sefydliad a ariannwyd gan gyfraniadau o gyflogau'r glowyr. Canolfan ar gyfer digwyddiadau hamdden a chymdeithasol yn y gymuned. Gelwid hi gan amlaf yn 'y Stiwt'.

**Torwyr streic**
Yr enw a roddwyd i'r dynion a oedd yn gwrthod mynd ar streic neu a ddychwelodd i'r gwaith. Galwyd nhw'n 'fradwyr' gan streicwyr ac yn 'lowyr gweithiol' neu'n 'ddychwelwyr' gan y cyfryngau a'r NCB.

**Tŷ ffrwydron**
Adeilad diogel mewn pwll glo lle cedwid ffrwydron i ffrwydro glo a cherrig dan ddaear.

## RHESTR DDARLLEN

WCCPL a’r NUM *Striking Back* (1985), Gwasg Salesbury

Michael Thomas *The Death of an Industry* (2004), Colben System Pte. Cyf.

John Davies *Hanes Cymru* (1994), Penguin

D. Gareth Evans *A History of Wales 1906-2000* (2000), Gwasg Prifysgol Cymru

W. Gareth Evans *The Role and Changing Status of Women in the Twentieth Century* (2000), ACCAC

Deirdre Beddoe *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth Century Wales (2000)*, Gwasg Prifysgol Cymru

David Egan *Coal Society: A History of the South Wales Mining Valleys 1840-1980* (1987), Gomer

John Gorman *Banner Bright – An Illustrated History of Trade Union Banners* (1986), Scorpion Publishing

## GWEFANNAU

*www.agor.org.uk/cwm*
Casgliad Meysydd Glo De Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe

*http://news.bbc.co.uk/1/hi/in_depth/uk/2004/miners_strike*
gwefan newyddion y BBC sy’n edrych yn ôl ar agweddau amrywiol ar y streic

*www.strike84.co.uk*
Oriel o luniau’r streic gan Martin Shakeshaft

*http://www.museumwales.ac.uk/en/rhagor/article/2049/*
Amgueddfa Cymru’s online virtual museum

**Dyma ychydig o awgrymiadau am weithgareddau i fynd gyda'r adnoddau.**

**ADRAN 1**

Edrychwch ar y dadleuon *o blaid* ac *yn erbyn* cau'r pyllau glo ar dudalen 5.

1. Beth yw ystyr y dyfyniadau? Gwnewch ymchwil bellach am un neu fwy o'r dyfyniadau gan chwilio am dystiolaeth i gefnogi'r safbwynt hwnnw.

2. Gwnewch ymchwil bellach ar y dadleuon am gau'r pyllau. Oes mwy o ddadleuon *o blaid* neu *yn erbyn*?

3. Trafodwch y dadleuon a gyflwynir. Efallai byddai'n haws canolbwyntio ar un neu ddau o feysydd.

4. Edrychwch ar ddadl 4 yn erbyn cau'r pyllau. Defnyddiwch eich tref neu gymuned eich hun fel astudiaeth achos i gefnogi neu danseilio'r ddadl hon. Defnyddiwch y dystiolaeth a gasglwyd yn y gweithgaredd ar dudalen 28 fel man cychwyn.

5. Edrychwch ar ddadl 5 yn erbyn cau'r pyllau. Gwnewch ymchwil bellach i ganfod beth a ddigwyddodd ym 1974. Ydych chi'n meddwl bod y gosodiad hwn yn deg?

6. Trefnwch y chwe dadl *o blaid* cau'r pyllau yn nhrefn eu cryfder gan ddechrau gyda'r gryfaf ar y brig. Gwnewch yr un fath gyda'r chwe dadl yn erbyn. Byddwch yn barod i drafod eich dewis.

7. Edrychwch ar y gosodiad ar waelod tudalen 3: '*yn y 1980au diwydiant glo Prydain oedd y diogelaf a'r mwyaf effeithlon yn y byd*'. Gwnewch ymchwil i ganfod pa mor wir yw'r gosodiad hwn.

**ADRAN 2**

1. Gwnewch ymchwil ar y gwrthdaro a ddaethpwyd i'w adnabod fel *Brwydr Orgreave* ym Mehefin 1984. Beth oedd y rhesymau dros y trais yn eich barn chi? Ydych chi'n meddwl bod bai ar y ddwy ochr?

2. Edrychwch ar y farn a fynegodd George Moores, Comisiynydd Heddlu de Swydd Efrog, yn y darn o'r *Labour Weekly* (Banc delweddau, rhif 4). Pam fynegodd George Moores y safbwyntiau hyn yn eich barn chi ?

3. Edrychwch ar y gosodiad ar dudalen 10 am y cyni economaidd a wynebai'r glowyr a'u teuluoedd yn ystod y streic. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'r ffotograffau yn y banc delweddau, dyfyniadau, cyfweliadau sain a ffynonellau cyhoeddedig eraill trafodwch yr anawsterau a ddaeth i ran y glowyr a'u teuluoedd. Pa rwydweithiau o gefnogaeth oedd ar gael i'r glowyr? A ddylanwadodd y cyni hwn ar gwrs y streic yn eich barn chi?

4. Edrychwch ar y posteri *Democratiaeth MacGregor a Cefnogwch y glowyr* ar dudalen 14. Pa mor llwyddiannus oedd y posteri hyn fel propaganda o blaid y streic yn eich barn chi? Pam?

5. Trafodwch yr erthygl ar dudalen blaen y *Rhymney Valley Report* ar dudalen 17. Pa ddulliau mae awdur yr erthygl yn eu defnyddio i geisio dwyn perswâd ar bobl i gefnogi'r glowyr?

**ADRAN 3**

1. Darllenwch ddyfyniad Ian MacGregor ar dudalen 21. A oes unrhyw un o’r safbwyntiau a fynegir yn y cyfweliadau sain yn cefnogi’r farn honno? Trafodwch pwy sy'n mynegi'r farn a beth yw'r rhesymau posibl am hynny.

2. Edrychwch ar graffiti Abercarn a dyfyniad Phil Cullen ar dudalen 16 a'r ddau ddyfyniad ar dudalen 23. I ba raddau mae'r ffynonellau hyn yn ategu'r farn a fynegwyd gan Gavin Rogers yn y cyfweliad sain?

**ADRAN 4**

Gweler y gweithgaredd a argymhellir ar dudalen 28. Yn ogystal â chasglu data ar y templed gallai disgyblion gasglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau ar gyfer cyflwyniad dosbarth ar un agwedd ar streic y glowyr 1984-5. Dylent edrych ar yr arddangosfeydd a'r arddangosiadau yn Big Pit i gefnogi tystiolaeth maent eisoes wedi'i chasglu o'r pecyn a'r banc delweddau. Hefyd gallant dynnu ffotograffau a gwneud recordiadau ar gyfer cyflwyniad clyweledol.

**Delwedd y clawr drwy garedigrwydd Mike Thompson.**
**Darluniau pellach trwy garedigrwydd Dorothea Heath, Mike Thompson ac eraill**

## SYLWADAU AC ADBORTH

Rydym o hyd yn ceisio gwella a datblygu ein gwasanaeth i ddysgwyr. Os ydych wedi defnyddio **Picedi, Plismona a Gwleidyddiaeth** byddem yn croesawu eich barn am ba mor llwyddiannus y bu gyda'ch myfyrwyr. Rydym hefyd yn awyddus i ystyried a oes unrhyw ardaloedd eraill mewn ysgolion a cholegau lle byddai defnyddio'r pecyn hwn yn berthnasol. Anfonwch eich meddyliau a'ch sylwadau at y Swyddog Addysg yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru 01495 796413 neu bigpit@amgueddfacymru.ac.uk

